

# Adroddiad Blynyddol

Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

2018/2019



# Adroddiad Blynyddol

**Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru**

**2018/2019**

---

## Sut i gysylltu â ni

**Post:** 33 / 35 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9HB

**Ffôn:** 02920 235 558

**E-bost:** [enquiries@waleschc.org.uk](mailto:enquiries@waleschc.org.uk)

**Gwefan:** [www.communityhealthcouncils.org.uk](http://www.communityhealthcouncils.org.uk)

**Twitter:** @CHC\_Wales

## Fformatau hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith amgen, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu archebu copi drwy gysylltu gyda'n swyddfa (manylion cywllt uchod).

---

---

Tudalen 3 **Neges gan ein Cadeirydd**

---

Tudalen 5 **Amdanom ni**

---

Tudalen 6 **Ein safonau craidd**

---

Tudalen 7 **Cyflawni ein fframwaith strategol**

---

Tudalen 10 **Ein hadolygiadau cenedlaethol**

---

Tudalen 13 **Gwneud i bob llais gyfrif**

---

Tudalen 15 **Adeiladu a datblygu**

---

Tudalen 18 **Atodiadau**

---

# Neges gan ein Cadeirydd



Dyma fy adroddiad blynddol cyntaf fel Cadeirydd ers cael fy mhenodi ym mis Mawrth 2019.

Mae'n adrodd ar flwyddyn lle bu Mutale Merrill a John Morgan yn arwain ein corff fel Cadeiryddion.

Hoffwn ddiolch i'r ddau am eu harweinyddiaeth ymroddedig yn ystod blwyddyn arall brysur a heriol.

Drwy gydol y flwyddyn buom yn gweithio gyda'n gilydd ac eraill i gasglu a rhannu barn a phrofiadau pobl o'r GIG, ac i ymateb ar y cyd pan oedd angen i bethau wella ar draws Cymru.

Wrth i'r GIG edrych ar ddatblygu ei gynlluniau ac ymateb i'w heriau drwy drawsnewid y ffordd

y mae'n darparu gofal, felly hefyd y mudiad CIC – fel bod llais y rhai sydd yn defnyddio gwasanaethau GIG nawr ac yn y dyfodol yn gallu cael ei glywed a bod arweinwyr a rheolwyr GIG yn ymateb i hynny.

Fe wnaethom herio ein hunain a'n gilydd. Fe wnaethom rannu'r hyn sydd yn gweithio'n dda ar draws ein mudiad, a datblgu dulliau newydd o weithio pan oedd angen i bethau wella.

Fe wnaethom ddatblygu ein perthynas gyda phartneriaid allweddol, ac adeiladu rhai newydd.

Mae gan CICau hanes maith a balch. Dros y 45 mlynedd diwethaf, mae aelodau gwirfoddol a staff wedi gweithio yn ddiflino i adlewyrchu barn a chynrychioli

buddiannau pobl a chymunedau yn eu GIG.

Mae cyflwyniad y Mesur newydd gan Lywodraeth Cymru i ddisodli CICau yng Nghymru yn gyfle inni adeiladu ar y gwaddol yma drwy gyflwyno corff llais y bobl annibynnol a gwirioneddol gryfach sydd yn gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod fe fyddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i wireddu'r weledigaeth honno.



**John Pearce**

# Amdanom ni

**Mae Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli llais CICau ar y cyd, yn gosod safonau a chanllaw i ategu eu gweithgareddau ac mae'n monitro ac yn rheoli eu perfformiad.**

**CICau ydy corff gwarchod annibynnol gwasanethau GIG yng Nghymru. Rydym yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais nyluniad a darpariaeth gwasanaethau GIG.**


Mae CICau yn ceisio gweithio gyda'r GIG a chyrrff arolygu a rheoleiddiol. Rydym yn darparu dolen bwysig rhwng y rhai sydd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaeth GIG yng Nghymru, y rhai sydd yn ei arolygu ac yn ei reoleiddio a'r rhai sydd yn ei ddefnyddio.

Mae CICau yn clywed oddi wrth y cyhoedd mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Rydym yn ymweld gyda gwasanaethau GIG i siarad gyda chleifion a gofalwyr. Rydym yn siarad gyda phobl mewn digwyddiadau a thrwy grwpiau cymunedol. Rydym yn defnyddio arolygon, apiau a chyfryngau cymdeithasol. Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol yn helpu pobl sydd eisiau codi pryderon am ofal neu driniaeth GIG.

Mae 7 CIC yng Nghymru; ac mae pob un yn cynrychioli 'llais y claf' mewn gwahanol rannau o Gymru.

## Ein gweledigaeth

Mae pobl yng Nghymru yn gwybod eu bod yn gallu rhannu eu barn a'u profiadau am y GIG yn hawdd ac maen nhw'n cydnabod eu bod, trwy wneud hynny, yn gallu cael dylanwad gwirioneddol ar ffurf gwasanaethau gofal iechyd. Mae pobl yn deall ac yn gwerthfawrogi'r rôl y mae CICau yn ei chwarae wrth eu cefnogi i gael eu clywed ac wrth gynrychioli buddiannau torfol cleifion a'r cyhoedd.



# Ein safonau craidd

**Gellir disgrifio ein deng prif swyddogaeth fel:**

- 1. Mae CICau yn gweithio er budd y cyhoedd a chleifion yng Nghymru**
- 2. Mae CICau yn gweithio yn effeithiol gydag erall i ddiogelu a hyrwyddo llesiant pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau GIG**
- 3. Mae gweithgareddau a gwasanaethau CICau yn ateb anghenion pawb, ac maen nhw'n hygyrch i bawb**
- 4. Mae gweithgareddau CICau yn agored, yn dryloyw ac yn gynhwysol**
- 5. Mae gweithgareddau CICau yn cael eu harwain, eu cefnogi yn gywir, gydag adnoddau cywir**
- 6. Mae CICau yn cynllunio ac yn cyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd sydd yn cynnal eu hannibyniaeth ac yn dangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu**
- 7. Mae CICau yn cryfhau llais cleifion a'r cyhoedd drwy weithio gyda'i gilydd ac eraill**
- 8. Mae CICau yn adlewyrchu barn a phrofiadau cleifion a'r cyhoedd am wasanaethau GIG**
- 9. Mae CICau yn rhannu ac yn adrodd ar ganlyniadau eu gweithgareddau mewn dull cytbwys ac amserol**
- 10. Mae CICau yn gwerthuso effaith eu gweithrediadau ac yn defnyddio'r hyn a ddysgir ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol**



# Cyflawni ein fframwaith strategol – yr hyn a wnaethom yn 2018/2019

## Cryfhau ein llais cenedlaethol

Mae ein mudiad yn bodoli i sicrhau bod barn a buddiannau pobl yn cael eu cynrychioli wrth galon datblygiadau newydd a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu grymuso a'u galluogi i gael dylanwad uniongyrchol ar lunwyr polisi.

Yn ystod y flwyddyn buom yn gweithio gyda'n gilydd i ymateb i amrediad o ddatblygiadau a thrafodaethau cenedlaethol am ddyluniad a darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a chyfranogiad pobl yn eu gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol:

## Digwyddiadau ymgysylltu cenedlaethol

Fe wnaethom gydgyssylltu gweithgareddau ymgysylltu CIC mewn rhai digwyddiadau cenedlaethol pwysig. Roedd hyn yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Amaethyddol Frenhinol a Pride Cymru. Fe wnaethom fanteisio ar y cyfleoedd yma i glywed oddi wrth amrediad eang o bobl am eu barn a'u profiadau o wasanaethau GIG. Roedd hyn yn llywio ein hadroddiadau cenedlaethol.

Hysbysu datblygiad safonau a chanllaw cenedlaethol  
Gan adlewyrchu'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrth CICau am yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw am eu gwasanaethau GIG, fe wnaethom hysbysu a dylanwadu ar ddatblygiad Llywodraeth Cymru ar:

- safonau mynediad newydd i wasanaethau meddygon teulu
- canllawiau newydd ar gyfer hebryngu.

## Codi ein pryderon cyfunol

Mae CICau yn amlygu materion sydd neu a fydd yn effeithio ar brofiadau pobl ar draws Cymru. Pan fyddan nhw, rydym yn codi'r materion hyn ar ran yr holl CICau yng Nghymru ac yn herio llunwyr polisi a'r rhai sydd yn darparu ein gwasanaethau i wneud yn well.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom godi ein pryderon cyfunol am wasanaethau GIG mewn amrediad o feysydd, yn cynnwys:

- **Costau deintyddol**  
Fe wnaethom ddweud wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod pobl yn cael eu cosbi'n

annheg oherwydd cymhlethdod y trefniadau sydd yn bodoli i gael mynediad i ofal deintyddol am ddim, ac mewn rhai achosion mae pobl yn meddwl ddwywaith am fynd i gael triniaeth.

Roeddem yn neilltuol o bryderus bod hyn yn effeithio fwyaf ar bobl o deuluoedd incwm isel ar draws Cymru.

Fe wnaethom ddweud ein bod eisiau system sydd yn syml, yn gymesur ac yn deg ac un sydd ddim yn troi pobl i ffwrdd rhag defnyddio gwasanaethau deintyddol. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog godi'r mater yma ar lefel DU fel bod modd cynnal adolygiad trylwyr o'r holl system.

Dywedodd y Gweinidog y byddai adolygiad yn cael ei gynnal.

- **Gwasanaethau sgrinio**  
Fe wnaethom groesawu'r cyhoeddiad yng Nghymru o ymestyn gwasanaethau sgrinio coluddion i bobl 50 oed a throsodd. Rydym eisiau gweld y cyfyngiad hwn yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl ac fe wnaethom ddweud wrth arweinwyr GIG ein bod yn bryderus y bydd hyn yn cymryd gormod o amser.

Fe wnaethom hefyd ofyn i arweinwyr GIG ddweud wrthym beth mae'n ei wneud i ddelio gydag oedi mewn gwasanaethau sgrinio mewn rhai meysydd allweddol, yn cynnwys sgrinio'r fron, colonoscopi a sgrinio llygaid diabetig.

Fe wnaethom ddweud wrth y GIG bod oedi o'r natur yma yn annerbyniol, o ran y canlyniadau sydd â'r potensial o newid bywyd a'r pryder cynyddol y mae pobl yn naturiol yn ei deimlo wrth aros am ganlyniadau neu asesiad.

Dywedodd y GIG wrthym beth mae'n ei wneud i gynyddu staffio yn y meysydd pwysig yma er mwyn gwella ei berfformiad.

## Ymateb i ymgynghoriadau a galwadau am dystiolaeth

Rydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth ac adborth lle rydym yn meddwl y bydd y farn a'r profiadau y mae CICau wedi'u clywed yn helpu eraill i wneud y penderfyniadau gorau i bobl yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ymateb ar ran CICau yng Nghymru i amrediad o ymgynghoriadau a galwadau am dystiolaeth, yn

cynnwys:

- Cod ymarfer ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth
- Ymchwiliad i wasanaethau nyrsio cymuned ac ardal
- Manyleb gwasanaeth i wasanaethau adnabod rhyw i oedolion
- Clymu cymunedau: delio gydag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
- Profion clinigol
- Adolygiad annibynnol o ddynladdiad esgeulstod difrifol a dynladdiad beius
- Gwasanaethau eiriolaeth cwynion mewn rhannau eraill o'r DU

### Hysbysu polisi ar gorff llais y bobl newydd i Gymru

Drwy gydol y flwyddyn fe fuom yn siarad gyda llunwyr polisi ynghylch gweledigaeth sengl mudiad CIC ar gyfer corff llais y bobl newydd, cryfach ac annibynnol.

Fe wnaethom rannu gwybodaeth i lywio dyluniad a chost tebygol y corff newydd.



# Ein hadolygiadau cenedlaethol

**Rydym yn tynnu oddi ar wybodaeth CICau yn lleol i ffurfio ein hagenda genedlaethol. Rydym yn gwneud mwy na chynnig ymatebion ar faterion a godir gan eraill; rydym yn gosod yr achos dros newid ar y materion sydd yn cyfrif fwyaf i gleifion a'r cyhoedd; yn disgrifio lle mae angen gwelliannau ac yn dal y GIG i gyfrif ar ei berfformiad.**

Rydym wedi cefnogi'r 7 CIC yng Nghymru gyda 4 o brosiectau cenedlaethol eleni. Roeddem eisiau clywed beth oedd gan bobl ar draws Cymru i'w ddweud am y GIG mewn rhai gwasanaethau allweddol:

### Cyfathrebu yn y GIG yng Nghymru

Drwy gydol yr haf gofynnodd CICau i bobl ar draws Cymru i ddweud wrthym am eu profiad o gyfathrebu yn y GIG, y da a'r drwg a rhoi awgrymiadau inni ynglŷn â sut y gallai wella.

Fe wnaethom dderbyn dros 1,300 o ymatebion. Tra bod profiad pawb yn wahanol, fe wnaethom ddarganfod bod nifer o themâu yn gyffredin.

Dyweddodd pobl wrthym bod cyfathrebu da yn gwneud amseroedd anodd yn ddioddefiadwy, yn helpu i adeiladu ymddiriedaeth yng ngofal GIG ac yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel.

Ar y llaw arall, fe wnaethom hefyd glywed sut roedd cyfathrebu gwael, neu dim cyfathrebu yn gwneud i bobl deimlo'n rhwystredig ac yn ofnus. Doedd pobl ddim bob amser yn teimlo bod ganddyn nhw unrhyw lais na rheolaeth dros eu iechyd a'u gofal ac nad oedden nhw'n medru mynegi eu pryderon yn hawdd.

Cafwyd sawl enghraifft lle roedd pobl wedi ceisio ac wedi methu cael yr wybodaeth angenrheidiol i gael mynediad i wasanaethau GIG neu i ofalu am eu hunain.

Fe wnaethom ddweud bod rhaid i wella cyfathrebu fod wrth galon y newidiadau y mae angen i'r GIG eu gwneud. Fe wnaethom herio Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru i wella cyfathrebu yn gyflymach ac yn well nag y maen nhw wedi ei wneud hyd yn hyn.

Dyweddodd Llywodraeth Cymru wrthym am y datblygiadau sydd ar y gweill ac sydd yn cael eu cynllunio yn y GIG i ddarparu gwell gofal. Nododd ei disgwyliadau y byddai'r bobl sydd





yn arwain y datblygiadau hyn yn ystyried yr adborth o'n hadroddiad wrth gyflwyno dulliau newydd a gwell o weithredu o ran cyfathrebu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

### **Gwasanaeth allan o oriau meddygon teulu**

Yn 2017-2018, soniodd Llywodraeth Cymru wrthym am y gwaith oedd yn digwydd i wella natur fregus gwasanaethau meddygon teulu allan o oriau yng Nghymru. Roedd hyn mewn ymateb i'n hadroddiad oedd yn dweud bod angen i'r GIG gydweithio i wella pethau yn gyflym.

Felly yn ystod 2019 fe wnaethom ofyn i bobl rannu eu barn a'u profiadau diweddar o ddefnyddio gwasanaethau meddygon teulu allan o oriau er mwyn inni weld os oedd pethau yn gwella.

Fe fyddwn yn adrodd ar yr hyn a ddywedodd pobl wrthym yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

### **Awtistiaeth**

Yn ystod 2018, fe wnaethom fynychu 2 sioe Awtistiaeth yng ngogledd a de Cymru. Fe wnaethom hefyd annog pobl i rannu eu barn a'u profiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy 'ap'.

Fe wnaethom ofyn i bobl a oedd y GIG yn ateb anghenion pobl gydag awtistiaeth. Fe wnaethom ofyn i bobl ddweud wrthym beth oedd yn dda a beth allai fod yn well.

Fe wnaethom glywed bod y GIG, pan mae'n gweithio'n dda, yn darparu chefnogaeth mawr ei angen i bobl a theuluoedd sydd yn byw gydag awtistiaeth.

Fe wnaethom hefyd glywed am y nifer o anawsterau mae pobl yn eu wynebu. Dywedodd pobl wrthym, er eu bod yn gwerthfawrogi gwaith caled y staff sydd yn darparu gofal GIG, eu bod yn teimlo bod y 'system' yn eu siomi. Roedd hyn yn

gwneud i bobl deimlon bryderus, yn rhwystredig ac yn fregus.

Mae angen i'r GIG yng Nghymru wneud cynnydd real a chynaliadwy o ran delio gyda'r materion allweddol a godwyd gan bobl a theuluoedd sydd yn byw gydag awtistiaeth. Felly fe wnaethom ddefnyddio'r wybodaeth yr oedd pobl wedi'i rhannu gyda ni i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar god ymarfer ar ddarparu gwasanaethau.

Fe fyddwn yn mynychu'r sioeau unwaith eto yn 2019 i weld os ydy pethau wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.

### **Amser mynd adref?**

Yn ystod 2017-2018 fe wnaeth CICau glywed fwyfwy am yr heriau mewn darpariaeth gofal cymdeithasol ac effaith hynny ar allu pobl i adael ysbyty pan mae'n nhw'n ddigon da.

Felly yn gynnar yn 2019 fe wnaeth CICau ofyn i bobl oedd wedi cael profiad o fod mewn ysbyty yn hirach nag angen i rannu gyda ni sut roedd hyn wedi effeithio arnyn nhw neu ar y rhai roedden nhw'n gofalu amdany'n nhw. Fe wnaeth CICau hyn drwy holi pobl mewn digwyddiadau, ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy ymweld â wardiau ysbyty i glywed yn uniongyrchol oddi wrth bobl. Fe fyddwn yn adrodd ar yr hyn ddywedodd pobl wrthym yn nes ymlaen eleni.

### **Edrych ar y cynnydd a wnaethpwyd gyda'n gweithgareddau cynharach**

Yn ogystal ag edrych ar y cynnydd a wnaethpwyd gyda'r pethau yr adroddodd CICau arnyn nhw mewn blynyddoedd cynharach drwy ymgysylltiad pellach a gweithgaredd ymweld, gofynnodd CICau hefyd i'r GIG adrodd ar yr hyn roedden nhw wedi ei wneud i wella gwasanaethau a'r hyn maen nhw'n dal i fwriadu ei wneud.

Un enghraifft o hyn ydy'r Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS).

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Chwefror 2018, fe wnaethom barhau i fonitro'r cynnydd a wnaethpwyd gan gyrff GIG i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth NEPTS.

Fe wnaethom ddweud wrth y GIG, er bod rhywfaint o gynnydd i'w weld, roedd hi'n dal i gymryd gormod o amser i wella pethau.

Ers hynny, rydym wedi gweld rhywfaint o welliannau pellach, yn cynnwys darparu gwell gwybodaeth fel bod modd i bobl ddarganfod gwybodaeth yn haws am y gwasanaeth a gyda phwy y mae modd iddyn nhw gysylltu.

Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes yma.



# Gwneud i bob llais gyfrif

**Mae gan CICau rôl allweddol mewn sicrhau bod barn pobl yn cael ei gynrychioli wrth galon datblygiadau newydd a chynrychioli i newid gwasanaethau fel bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu grymuso i ddylanwadu yn uniongyrchol ar y blaenoriaethau i'r GIG.**

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom barhau i gefnogi CICau i weithio gyda'i gilydd i ystyried cynigion gan gyrrff GIG i ddatblygu, amrywio neu newid y ffordd y mae gwasanaethau GIG yn cael eu darparu ar draws mwy nag un ardal bwrdd iechyd.

Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer datblygu a chyflwyno:

- Rhwydwaith trawma mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys
- Gwasanaethau llawdriniaeth thorasig yn Ne Cymru
- Gwasanaeth Hunaniaeth Rhyw i Oedolion ar gyfer Cymru.

Fe wnaethom ei gwneud yn haws i CICau rannu gwybodaeth gyda'i gilydd am ddatblygiadau a newidiadau i wasanaethau allai effeithio ar gymunedau cyfagos drwy ddatblygu protocol newydd.

Fel bod CICau yn meddwl am gynigion i newid gwasanaethau lleol mewn dull tebyg, fe wnaethom gynhyrchu canllaw i CICau wrth iddyn nhw ddatblygu eu trefniadau lleol gyda byrddau iechyd i weithio

gyda'i gilydd ar ddatblygiadau a newidiadau i wasanaethau. Mae profiadau pobl o ofal iechyd yn gwahaniaethu'n fawr – gall ethnigrwydd neu ryw effeithio ar allu pobl i gael mynediad i wasanaethau. Gall anabledd neu incwm pobl effeithio ar ba mor dda y mae gwasanaethau yn gwranddo arny'n nhw.

Rydym eisiau i amrywiaeth a chynhwysiant fod wrth galon popeth a wnawn fel bod ein gweithgareddau yn helpu i ddarparu llais cyfartal i bawb yn eu GIG.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cydraddoldeb ac adrodd i Diverse Cymru ar ein cynnydd, ac ymgysylltu ar ein cynllun a'n hamcanion cydraddoldeb.

Fe wnaethom lawer o bethau i'n helpu i feddwl am gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Roedd hyn yn cynnwys:

- Edrych ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein mudiad CIC
- Cyflwyno set newydd o gwestiynau cyffredin i CICau eu defnyddio i

fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws eu swyddogaethau ymgysylltu ac eiriolaeth

- Adolygu a diwygio ein fframwaith ar gyfer cynllunio a gwerthuso prosiectau fel bod CICau yn gwella wrth sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u sefydlu yn eu holl weithgareddau
- Cynhyrchu a chyhoeddi amrediad o ddogfennau canllaw i aelodau a staff CIC ar faterion cydraddoldeb, a chynnwys hyn yn ein rhaglen datblygu aelodau
- Cyhoeddi ein dogfennau allweddol mewn amrediad o ieithoedd a fformatau hygyrch, yn cynnwys fideos Iaith Arwyddion Prydeinig dwyieithog a dogfennau hawdd eu deall
- Paratoi ar gyfer cyflwyniad y Safonau Iaith Gymraeg newydd ym mis Mai 2019

## Adeiladu ar ein dylanwad a'n henw da

Er mwyn wneud i bob llais gyfrif, rhaid i'n canfyddiadau a'n barn gael eu clywed, eu parchu a'u gwerthfawrogi gan y rhai sydd yn dylunio ac yn darparu ein gwasanaethau a'r rhai hynny yr ydym yn cynrychioli eu buddiannau.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom barhau i adeiladu ar ein partneriaethau cyfredol a llunio rhai newydd lle roedd cydweithio yn cynyddu ein siawns o wneud gwahaniaeth:

- fe wnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth gyda Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG i adolygu a diwygio ein hymagwedd tuag at gydraddoldeb
- fe wnaethom gyfrannu at raglen reolaidd o 'uwchgynadleddau' iechyd gofal i rannu'r wybodaeth roeddem wedi'i gasglu drwy ein gweithgareddau gydag eraill. Yn y cyfarfodydd hyn fe wnaethom ddysgu am bryderon pobl eraill a defnyddio'r wybodaeth yma i'n helpu i gynllunio gweithgareddau yn lleol ac yn genedlaethol
- fe wnaethom ddylanwadu ar lunwyr polisi drwy rannu'r hyn sydd yn bwysig i bobl am eu gwasanaethau GIG ar amrediad cynyddol o grwpiau a phwyllgorau cenedlaethol GIG, yn ogystal â chyflwyno mewn fforymau polisi cenedlaethol a chynadleddau a digwyddiadau eraill.

Mae ein dull o rannu profiadau uniongyrchol cleifion yn parhau i gynyddu'r lefel o ddiddordeb yn ein gweithgareddau ymysg llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn buom yn gweithio mewn partneriaeth gydag arbenigwyr cyfryngau i ddatblygu ein perthynas gyda'r cyfryngau ymhellach – fel bod rhagor o bobl yn clywed am ein gweithgareddau ac yn cael eu hannog i gymryd rhan.



# Adeiladu a datblygu fel mudiad dysgu effeithiol yn seiliedig ar werthoedd

**Mae dysgu oddi wrth ein hunain ac oddi wrth eraill yn ein helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ac ymateb i'n hamgylchedd newidiol drwy ddulliau gweithredu creadigol ac arloesol.**

Drwy'r fframwaith a nodir yn ein Safonau Cenedlaethol i CICau yng Nghymru<sup>9</sup>, fe wnaethom barhau i gefnogi CICau i hunanasesu eu perfformiad a'u heffaith eu hunain, a hefyd nodi ac ateb eu hanghenion datblygu.

Fe wnaeth ein Pwyllgorau Llywodraethiant a Safonau a Pherfformiad Corfforaethol edrych ar beth sydd yn gweithio'n dda ar draws ein mudiad a beth sydd angen ei newid. Roedd hyn yn cynnwys gwneud i bethau weithio'n well ac ateb gofynion newydd drwy:

- cyflwyno ffordd newydd i CICau weithio gyda'i gilydd i adolygu pa mor dda mae pob un yn llwyddo i ateb safonau cenedlaethol ar gyfer CICau yng Nghymru (mae'n cael ei alw yn 'adolygiad cymheiriaid'). Mae hyn yn cynnwys rhannu beth sydd yn gweithio'n dda gydag eraill.
- ei gwneud yn haws i bobl godi eu pryderon ac ymchwilio'n

gyflym a syml iddyn nhw drwy weithdrefn gwynion newydd

- sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon am ymddygiad ein haelodau drwy weithdrefn cod ymddygiad newydd
- helpu i sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi ein gilydd ac yn cydweithio'n effeithiol drwy gyflwyno safonau ymddygiad newydd ar gyfer cyfarfodydd
- sicrhau ein bod yn gofalu am ddata personol pobl drwy adolygu sut rydym yn casglu, dal a rhannu gwybodaeth yn unol gyda'r 'Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol' (GDPR)

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom hefyd gefnogi CICau Abertawe Bro Morgannwg a Cwm Taf i baratoi ar gyfer newid yn eu ffiniau daearyddol i gyd-fynd gyda'r newidiadau sydd yn digwydd yn ardaloedd eu byrddau iechyd.

## Gwerthfawrogi ein haelodau a'n staff

Ein haelodau a'n staff ydy asgwrn cefn ein mudiad, ac maen nhw'n allweddol i'n gallu i gyflawni ar gyfer cleifion a'r cyhoedd.

Rydym yn gwybod bod y broses penodiadau cyhoeddus cyfredol yn ei gwneud yn fwy anodd i ddenu aelodaeth gwirfoddol amrywiol. Ac felly, er mwyn gwella ein gallu i ddenu a chadw aelodau newydd fe wnaethom barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch a helpu i sicrhau bod penderfyniadau ar benodiadau yn cael eu gwneud ar y sail cywir.

Fe wnaethom barhau gyda'n proses flynyddol o gasglu a dadansoddi amrywiaeth aelodaeth CIC er mwyn deall yn well pa mor dda rydym yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethwn. Roedd y canlyniadau yn dangos bod angen inni barhau i annog pobl ifanc a phobl drawsrywiol i ymuno â CICau. Felly fe wnaethom barhau i ddefnyddio ein deunyddiau marchnata sydd yn targedu pobl ifanc. Defnyddiodd CICau rhain tra'n ymgysylltu gyda'r cyhoedd ac i gefnogi ymgysylltiad penodol mewn digwyddiadau fel ffeiriau glas fyfyrwyr.

Fe fuom yn gweithio hefyd gyda Stonewall Cymru er mwyn ein helpu i feddwl am hyfforddiant

a chymau gweithredu eraill mae angen inni eu dilyn i wneud ein hamgylchedd 'gwaith' yn fwy croesawgar, yn enwedig i bobl drawsrywiol.

Fe wnaethom weithredu i roi gwell cefnogaeth i aelodau newydd CIC ar draws Cymru drwy ddarparu rhaglen ddatblygu aelodau newydd. Fe wnaethom annog e in staff i nodi anghenion dysgu a datblygu personol drwy broses werthuso flynyddol ac fe wnaethom gyllido rhaglen o ddysgu unigol a thîm ar draws Cymru.

Fe wnaethom ddatblygu dull newydd o helpu ein gilydd pan fo'r gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn dioddef oherwydd prinder staff mewn ardal leol. Mae ein dull o weithredu yn rhoi cyfleoedd newydd i'n staff cefnogi eiriolaeth ddysgu sut i fod yn eiriolydd drwy hyfforddiant ffurfiol yn ogystal â dysgu 'ar y gwaith'.

## Yr hyn na wnaethom lwyddo i'w gyflawni

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom adolygu ein cynlluniau. Y rheswm dros hyn yn bennaf oedd gallu ymateb i'r cynnydd yn y cynigion i ddatblygu a newid y ffordd y mae gwasanaethau GIG yn cael eu darparu yng Nghymru. Roeddem hefyd eisiau gweithio gydag eraill i ddatbygu trefniadau ar gyfer corff llais y bobl newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- **Datblygu ein gwerthoedd cyffredin**

Fe wnaethom ddiwygio rhai o'n polisiâu a'n gweithdrefnau sydd yn llywodraethu ein hymddygiad a'n hagweddau, ac fe wnaethom gyflwyno safonau newydd ar gyfer cyfarfodydd. Ond ni wnaethom lwyddo i adeiladu ar y set cyffredin o werthoedd a nodwyd gan ein haelodau a'n staff yn ystod trfodaethau grŵp.

Fe fyddwn yn gwneud hyn fel rhan on paratodau ar gyfer cyflwyno corff llais y bobl newydd. Fe fydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod bob amser yn gwneud y pethau cywir am y rhesymau cywir yn y ffordd gywir.

- **Cyflwyno fframwaith llywodraethiant cryfach**

Mae'r ffordd rydym wedi cael ein sefydlu fel mudiad yn effeithio ar sut rydym yn trefnu ein hunain, yn cymryd penderfyniadau ac yn cefnogi ein gweithgareddau. Rydym yn dibynnu ar gyrff eraill i ddarparu gwasanaethau allweddol inni i'n helpu i reoli ein pobl a'n harian.

Mae angen i hwn weithio yn well eto. Rydym wedi nodi sut y gallai pethau fod yn gliriach ac wedi rhannu hyn gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (fel y sefydliad sydd yn ein lletya). Rydym yn aros i'r fframwaith dderbyn cymeradwyaeth.



# Atodiadau

## Atodiad 1 – Ein datganiad ariannol

Nodir isod y datganiad ariannol yn cofnodi'r gyllideb a'r gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Mae'r ddau ddatganiad cyntaf yn berthynol i'r cyllid craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd.

Mae'r trydydd datganiad yn cyfeirio at y cyllidebau cost canolog a ddefnyddir i gefnogi gweithgareddau'r holl CICau ac mae'r pedwerydd datganiad yn berthynol i'r cyllid craidd a ddarperir i'r CICau drwy Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ar gyfer eu swyddogaethau craidd.

### Costau sefydlog

	Cyllideb Flynyddol	Gwariant hyd at 31 Mawrth	Amrywiad
<b>Cyflogau staff</b>	359,155	313,380	45,775
<b>Costau swyddfa</b>	8,586	8,626	-40
<b>Costau llety</b>	42,856	43,872	-1,016
<b>Cyfanswm (sefydlog)</b>	410,597	365,878	44,719

### Costau amrywiol

	Cyllideb Flynyddol	Gwariant hyd at 31 Mawrth	Amrywiad
<b>Teithio a chostau cysylltiedig</b>	7,200	6,941	259
<b>Costau swyddfa</b>	5,759	10,079	-4,320
<b>Cyfanswm (amrywiol)</b>	5,759	17,020	-4,061
<b>Trosglwyddiadau i'r gronfa wrth gefn</b>	-39,726	-	-39,726
<b>CYFANSWM (sefydlog ac amrywiol)</b>	383,830	382,898	932



## Costau canolog

	Cyllideb Flynyddol	Gwariant hyd at 31 Mawrth	Amrywiad
<b>Hyfforddiant</b>	35,000	30,948	4,052
<b>Marchnata</b>	8,000	11,364	-3,364
<b>Cymorth i aelodau</b>	3,600	2,888	712
<b>Wrth gefn</b>	30,175	-271	30,446
<b>Wrth gefn (anghylchol)</b>	-50,000	-	-50,000
<b>Trosglwyddiadau cyllideb</b>	-16,811	-	-16,811
<b>Costau swyddfa</b>	62,326	-	62,326
<b>CLG TG</b>	97,018	107,186	-10,168
<b>Costau cyfreithiol</b>	106,000	115,599	-9,599
<b>Rheolaeth CLG</b>	25,000	34,030	-9,030
<b>Cynhadledd staff</b>	102,000	102,628	-628
<b>Cynhadledd staff</b>	-	-	-
<b>CYFANSWM</b>	402,308	404,372	-2,064

## Cyllidebau CICau

	Cyllideb Flynyddol	Gwariant hyd at 31 Mawrth	Amrywiad
<b>ABERTAWE BRO MORGANNWG</b>	429,145	429,143	2
<b>ANEURIN BEVAN</b>	445,485	445,485	0
<b>BETSI CADWALADR (GOGLEDD CYMRU)</b>	719,928	719,925	3
<b>CWM TAF</b>	341,098	341,097	1



<b>CAERDYDD A BRO MORGANNWG</b>	442,065	440,893	1,172
<b>HYWEL DDA</b>	433,113	433,109	4
<b>POWYS</b>	337,666	337,665	1
<b>Cyfanswm (CICau)</b>	3,148,500	3,148,500	1,183

## Cyfanswm

	Cyllideb Flynyddol	Gwariant hyd at 31 Mawrth	Amrywiad
<b>SWYDDFA'R BWRDD</b>	383,830	382,898	932
<b>CANOLOG</b>	402,308	404,372	-2,064
<b>CICau</b>	3,148,500	3,147,317	1,183
<b>CYFANSWM</b>	3,934,638	3,934,588	50



## Atodiad 2 – Datagniadau buddiannau

Cyhoeddir cyfarwyddiaethau cwmnïau neu safleoedd mewn cyrff eraill aelodau'r Bwrdd sydd yn debygol, neu o bosibl yn ceisio gwneud busnes gyda'r GIG yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor i Weinidogion Cymru, fel ag sydd yn ofynnol dan Reoliad 25 o Reoliadau CIC 2015:

Enw	Safle ar Fwrdd CICau	Cyfarwyddiaeth	Safleoedd eraill o awdurdod
<b>Mutale Merrill</b>	Cadeirydd (tan Tachwedd 2018)	Prif Weithredwr - Bawso	Aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Comisiwn Pobl Hŷn
<b>John Pearce</b>	Cadeirydd (o Chwefror 2019)		
<b>Suzanne Williams</b>	Aelod Annibynnol	Dim wedi'i ddatgan	Llywodraethwr Awdurdod Lleol ar gyfer Cymuned Ddysgu Abertyleri
<b>Huw Jones</b>	Aelod Annibynnol	Ysgrifennydd a chyfarwyddwr CF10 Arms Park Rugby Trust	Aelod o Bwyllgor Archwilio Prifysgol Cymru.
<b>Cerys Jones</b>	Aelod Swyddog	Dim wedi'i ddatgan	Dim wedi'i ddatgan
<b>George Clemow</b>	Cadeirydd CIC Aneurin Bevan	Dim wedi'i ddatgan	Dim wedi'i ddatgan

<b>Brian Moon</b>	Cadeirydd CIC Abertawe Bro Morgannwg	Dim wedi'i ddatgan	Dim wedi'i ddatgan
<b>Jill Shelton</b>	Cadeirydd CIC Caerdydd a Bro Morgannwg	Dim	Gweinidog, Eglwys St. Andrews, Y Rhath
<b>Rowena Myles</b>	Cwm Taf CHC Chair	Dim wedi'i ddatgan	AaGIC
<b>John Morgan</b>	Cadeirydd CIC Hywel Dda	Cadeirydd Ymddiriedolwyr Road Newlink, Cymru Cadeirydd Cymdeithas Tai Hafan Cymru, Ymddiriedolwr a Thrysorydd Elusen Seren	Ysgrifennydd/ Cadeirydd Plaid Werdd Cymru
<b>Frances Hunt</b>	Cadeirydd CIC Powys		Gweinyddwr Ymddiriedolaeth Agnes Evans Aelod o Grŵp Cleifion Cymru RCGP Aelod o Grŵp Cyfranogiad Cleifion Llanfyllin Ymatebwr cyntaf (WAST) Ysgrifennydd Eglwys Sant Dogfan Ysgrifennydd Maes Cenhadaeth Dyffryn Tanat



## Atodiad 3 – Ein Bwrdd a'i bwyllgorau



**Alyson Thomas**  
Prif Weithredwyr  
ar y cyd



**Clare Jenkins**  
Prif Weithredwyr  
ar y cyd



**Mutale Merrill OBE**  
Cadeirydd



**John Pearce**  
Cadeirydd



**Rowena Myles**  
Cadeirydd Cwm Taf



**Mark Thornton**  
Cadeirydd, Gogledd  
Cymru



**Huw Jones**  
Aelod Annibynnol



**John Morgan**  
Cadeirydd Hywel  
Dda ac Is-Gadeirydd  
y Bwrdd



**Cerys Jones**  
Aelod Swyddog



**Jill Shelton**  
Cadeirydd Caerdydd a'r  
Fro



**Brian Moon**  
Cadeirydd Abertawe  
Bro Morgannwg



**Frances Hunt**  
Cadeirydd Powys



**Suzanne Williams**  
Aelod Annibynnol

<b>Mark Thornton</b>	Cadeirydd CIC Gogledd Cymru	Dim wedi'i ddatgan	Dim wedi'i ddatgan
<b>Alyson Thomas</b>	Prif Weithredwyr ar y cyd	Dim wedi'i ddatgan	Dim wedi'i ddatgan
<b>Clare Jenkins</b>	Prif Weithredwyr ar y cyd	Dim wedi'i ddatgan	Dim wedi'i ddatgan

# Atodiad 4 – Cynrychiolaeth allanol 2018/2019

<b>Is-Bwyllgorau</b>	<b>Cadeirydd</b>
<b>Llywodraethiant Corfforaethol</b>	Huw Jones (Aelod annibynnol)
<b>Safonau a Pherfformiad</b>	Suzanne Williams (Aelod annibynnol)
<b>Newid Gwasanaeth ar y Cyd</b>	Huw Jones (Aelod annibynnol)

<b>Uwch Dîm Rheoli</b>	
<b>Alyson Thomas</b>	Prif Weithredwraig ar y Cyd (tan Ionawr 2019) / Prif Swyddog CIC Hywel Dda (tan Tachwydd 2018)
<b>Clare Jenkins</b>	Prif Weithredwraig ar y Cyd (tan Ionawr 2019) / Prif Swyddog CIC Abertawe Bro Morgannwg (tan Tachwydd 2018)
<b>Angela Mutlow</b>	Prif Swyddog, CIC Aneurin Bevan
<b>Cathy Moss</b>	Prif Swyddog, CIC Abertawe Bro Morgannwg
<b>Des Kitto</b>	Prif Swyddog, CIC, Cwm Taf (tan Ionawr 2019) a Phrif Swyddog, Bwrdd (o Chwefror 2019)
<b>Stephen Allen</b>	Prif Swyddog, CIC Caerdydd a Bro Morgannwg
<b>Sam Dentten</b>	Prif Swyddog, CIC Hywel Dda
<b>Katie Blackburn</b>	Prif Swyddog, CIC Powys
<b>Geoff Ryall-Harvey</b>	Prif Swyddog, CIC Gogledd Cymru (Betsi Cadwaladr)

(UDRh)	Bwrdd/cynrychiolydd SMT
<b>111-Bwrdd Gweithredu OOH</b>	Prif Weithredwyr ar y Cyd
<b>Bwrdd Cyngori HIW</b>	Alyson Thomas (UDRh)
<b>Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol</b>	Prif Weithredwyr ar y Cyd
<b>Dewis yn Ddoeth Cymru</b>	Clare Jenkins (UDRh)
<b>Bwrdd Seinio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW)</b>	Des Kitto (UDRh)
<b>Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio</b>	Angela Mutlow (UDRh)
<b>Rhwydwaith Pryderon Cymru Gyfan</b>	Des Kitto (UDRh)
<b>Grŵp Llywio Gweddnewidiol Cleifion Allanol (LIC)</b>	Stephen Allen (UDRh)
<b>Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru (AMRCW)</b>	Alyson Thomas (UDRh)
<b>Grŵp Llywio Adolygu Canser</b>	Stephen Allen (UDRh)
<b>Grŵp Cyfeirio Gwasanaethau Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys (NEPTS ESRG)</b>	Stephen Allen (UDRh)
<b>Grŵp polisi Iechyd a Gofal Cymdeithasol IWA</b>	Alyson Thomas (UDRh)
<b>Canlyniad wedi'i gofnodi gan y claf mesurau / cofnodwyd y claf profiad (PROMS + PREMS)</b>	Angela Mutlow (UDRh)
<b>Bwrdd Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru (BRCAC)</b>	John Beecher (Aelod CIC)
<b>Pwyllgor Diogelwch Ansawdd a Phrofiad Cleifion WHSSC</b>	Diana Griffiths (Aelod CIC)



# Atodiad 5 – Staff CIC a manylion cyswilt

Teitl Swydd	Enw	Oriau gwaith yr wythnos
<b>Prif Weithredwyr</b>	Alyson Thomas	37.5
<b>Swyddog Ymgysylltu Cleifion a'r Cyhoedd</b>	Leanda Wynn	(Gweithio i Gyngorau Iechyd Cymunedol Cwm Taf)
<b>Prif Swyddog</b>	Des Kitto	37.5
<b>Rheolwraig Busnes</b>	Jenna Hodges	22.5
<b>Swyddog Cefnogi Gweinyddol</b>	Sharon Walters	37.5
<b>Rheolwraig Adnoddau Dynol</b>	Caroline Curle	28
<b>Swyddog Adnoddau Dynol a Datblygu</b>	Beaully Graham (Seibiant mamolaeth tan fis Hydref 2018) Michael Banner (Cyfnod mamolaeth tan fis Awst 2018)	22.5 30 (dros gyfnod mamolaeth)
<b>Swyddog Adnoddau Dynol a Datblygu (dros gyfnod mamolaeth)</b>	Michael Banner	30 (dros gyfnod mamolaeth)



## Atodiad 6 - Cyfeiriadau

- Code of practice on the delivery of autism services consultation**  
<https://gov.wales/code-practice-delivery-autism-services>
- CHC national standards** <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/899/Revised%20Aprl%202017%20CHC%20Standards%20FINAL%20ENGLISH.pdf>

## **Sut i gysylltu â ni**

**Post:** 33 / 35 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9HB

**Ffôn:** 02920 235 558

**E-bost:** [enquiries@waleschc.org.uk](mailto:enquiries@waleschc.org.uk)

**Gwefan:** [www.communityhealthcouncils.org.uk](http://www.communityhealthcouncils.org.uk)

**Twitter:** @CHC\_Wales

## **Fformatau hygyrch**

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith amgen, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu archebu copi drwy gysylltu gyda'n swyddfa (manyllion cywllt uchod).